# MARWNAD,

NEU GOFFADWRIAETH AM Y

## *PARCH JOHN THOMAS,*

GYNT O RISGA, SWYDD FYNWY.

YR HWN A YMADAWODD A'R BYD,

YN NHREFECCA, SWYDD FRECHEINIOG;

Dydd Sadwrn y 10fed o Awst, 1822.

Yn y 65 mlwydd o'i Oed.

---

GAN REES DAVIES.

---

Evan Hughes Argraphydd, Talgarth.

---

1 MAE'r byd lle'r y'm yn trigo,
Yn gymmysgedig iawn,
Newyddion yn ymgroesi
O forau hyd brydnhawn;
Mae rhai newyddion hyfryd,
I'w clywed yma'n wir,
A eraill yn eu croesi,
Yn peri tristwch hir.

2 Mae rhai o'r milwyr glewion,
A fu ar faes y gwa'd,
Yn gad'el yma eu hartau,
A myn'd i dir eu gwlad;

Cael Palmwydd yn lle cleddyf,
A'r goron yn lle'r gro's,
A'r delyn aur i ganu,
Heb ofni tywyll nos.

3 Mae llawer bore haulog,
Yn para oriau llawn,
Ac yn ddo ddu gymmylau,
A'n mesti y prydnhawn;
A chyn i'r dydd i ddarfod,
A'r nôs i gym'ryd lle,
Yr haulwen yn llewyrchu,
Yn ddisglair yn y ne.

4 Gwnaeth Duw drugaredd ryfedd,
A'n brawd John Tomos fwyn,
Ar ol ei saith gystuddiau,
A'i hir ofidus gwyn;
Fe dorfodd gwawr o'r nefoedd,
Pan oedd ar lan y dw'r,
Ca'dd fyn'd yn llon trwy'r afon
Y'mreuchiau'r Canol ŵr.

5 Bu yn y ffwrnes danllyd,
Tros amser maith yn wir,
Ond cafodd ei ddwyn allan,
Fel aur yn loyw clir;
Ca'dd dystio yn yr afon
Am Iawn Calfaria fryn,
Nes ydoedd pawb yn siriol,
Ag oedd yn clywed hyn.

6 Ca'dd ef ei alw'n forau,
I winllan Iesu glân,
Ca'dd yfed gwin y Nefoedd,
Yn hyfryd iawn ei ran;
Ca'dd ddoniau melus hefyd,

I ddweu'd am rin y gwa'd,
A gollwyd gynt i'n prynu,
A'n dwyn i gôl y Tad.

7 Bu ef trwy Siroedd Cymry,
Mewn teithiau hir a maith;
Yn dweu'd yn ogoneddus,
Am Iesu lawer gwaith;
Daeth gwlith y Nef i wared,
I enaid llawer un,
Wrth fôn ei eiriau peraidd,
Oedd felus fel y gwin.

8 Pan oedd yn nhir y Gogledd,
Tro olaf oll ond un
Yn traethu gair y bywyd,
Ac yn Nghaergybi ei hun;
'Roedd Sinai oll yn tanio,
A'r udgorn yn hir llâs,
A thyrfa fawr yn gwaeddi,
Am gadwedigol râs.

9 Fe fu diwygiad grymus,
Yn Llan sydd uwch y llynn,
Yn agos iawn i'r Bala
Y bu'r nefol-waith hyn;
Tra'r ydoedd *John* yn traethu
Am Iachawdwriaeth lawn,
Daeth cafod o'r uchelder,
Ag oedd yn hyfryd iawn.

10 Tro olaf bu e'n teithio
Tir Gogledd îs y nef.
'Roedd peraidd sain yn canlyn
Ei wych athrawiaeth ef;
'Roedd un yn dywedyd wrthyf,
Sy'n byw yn Ynys Môn,
Fod llais y Nef yn amlwg,

I'w cael y'ngeiriau *Shion*.

11 Y gair oedd ganddo'n destyn,
Sydd felus ei goffhau,
Ti ydwyt loches i mi,
Ti'm cedwi rhag pob gwae;
Mi gaf fy amgylchynu
A gwaredigaeth gref,
A hyn wna i mi ganu,
Ynghyd â theulu'r Nef

12 Fe dorrodd gwawr diwygiad
I lawr o'r nefoedd lân,
Pan ydoedd e'n pregethu,
Yn llawn o'r nefol dân;
Yn Sir y Caredigion
Yn Lledrod uchel fryn,
Ca'dd yno rai eu galw,
Trwy eiriau et cyn hyn.

13 Soniarus oedd ei eiriau,
Pan fyddai'r gwynt o'i du,
Ac awel Nef yn cerdded
Yn danllyd oddi fry;
Fe allasid disgwyl weithiau,
Wrth sain ei uchel lef,
Y buasai'r creigiau'n hollti,
With rym ei daran ef.

14 Pan oedd yn mhair y cystudd,
A'i boenus feddwl gwn,
Fe gafodd ei ddilwytho
Oddi wrth y byd a'i bwn;
'Fe gafodd gyflawn olwg
Ar drysor can mil gwell,
Y'mhlith y gwaredigion,
O fewn i'r Gannan bell.

15 Fe gadwodd Duw ei ryddid,

Yn ei Gyfammod Ef,
I guro ei blant a gwialen,
Am feiau Is y nef;
Ac etto mae'r Cyfammod,
'N gadarnach na'r holl fyd,
Fe losgir hwn yn dânllwyth,
Ond cedwir et i gyd.

16 Os cawsom ein cyd godi, *Col.* 3. 1.
A'r Iesu Brenhin hedd,
A'n gwisgo ar ei ddelw,
'Nol do'd i'r lan o'r bedd;
Yr uchel floedd sy'n galw
Uwch ben y rhai'n i gyd,
Yw ceisio pethau uchod
Nid pethau gwag y byd.

17 Mae'r Pen cyfoethog heddyw,
Fry ar ddeheulaw'r Tad,
Mae'n galw ei holl aelodau,
I'w serchu E'n ddi-frâd,
Nid rhoddi'n serch ond hynny
Ar bethau gwael y llawr,
Bydd rhai'n i gyd 'mhen gronyn,
Ar dân pan del eu hawr.

18 'Fe gliriodd Duw ei enw,
Yn rhyfedd yn y gwaith,
Pan gliriodd ef y t'wyllwch
Oedd ar ei enaid llaith;
Ca'dd ddywedyd yn dra eglur,
Am Geidwad gorau erio'd,
Pan oedd y byd a'i bethau,
Fel sothach dan ei droed.

19 Fe gauwyd safnau cablwyr,
Y byd annuwiol câs
Pan ll'wyrchodd gwawr y bywyd

Ar nefol anian grâs:
Ca'dd yntau gordial hyfryd,
Cyn myn'd trwy 'r afon gref,
Lle mae ef heddyw'n yfed
Y gwin ſydd gyd âg Ef.

20 Caiff eglwys Dduw eu lloni,
Wrth ddarllen hyn o gân.
'Nol iddynt fod mewn triſtwch,
O'i achos ef o'r bla'n;
Ar ol y maith dywyllwch
Daeth goleu yn mrig yr hwyr,
Nes ymlid y tywyllwch,
I ffwrdd yn ddigon llwyr.

21 'Does neb yn gwybod heddyw,
Sydd ar y ddae'r yn byw,
Pa dywydd a'i gorddiwes,
Cyn myned at ei Dduw;
'Does neb a ddichon wybod,
Pa ryw gyſtuddiau maith,
A ddichon eu cyfarfod,
Cŷn myn'd i ben eu taith.

22 Wrth anwyl Wraig ei ſynwes,
'Rwy'n chwennych dweu'd yn awr,
Chwi gawſoch dywydd garw,
A hyn yn amſer mawr;
Ond fe aeth hynny heibio,
'Fe gafodd ef y lan
Mae'n chwennych cael eich gweled,
Yn llawen yn y man.

23 Na lwfwrhewch un gronyn.
Mae nerth i'w gael wrth raid,
Mae porth y Nef yn agor,
Bydd Iesu i chwi yn blaid;
Boed pwys eich henaid arno,

Wrth fyn'd ymlaen i'ch taith,
Cewch brofi bydd E'n ddigon,
Ymhob gorthrymder maith.

24 A chwithau Meistres Lewis,
A'ch anwyl Briod glân,
Ceisiwch yn aml 'nabod
Y cwlwm di-wahan;
Carwch eich gilydd yma,
Tra byddoch ar y llawr,
Ond carwch Iesu ragor
Na'r holl greadigaeth fawr.

25 'Rwyf finnau yn y carchar
Gan angeu, gwn fy nod,
Ni's gwn pa hyd rhaid aros
Mewn poenau is y rhod;
'Rwy'n brefu am gael myned
I maes o'r anial dir,
A landio mewn llawenydd,
I mewn i'r Ganaan bur.

26 Ar bur gyfiawnder Iesu,
Mae mhwys i oll i gyd,
Mae haeddiant E'n ddigonol,
Mae'n gan mil gwell na'r byd;
Wel dyma le'r heddychiad,
Mae'r Tad yn foddlon iawn,
I'r enaid edifeiriol
I bwyso arno'n llawn.

27 Wel medd Cyfiawnder Dwyfol,
Pan welo enaid tlawd,
Yn ffoi at Iesu'n unig,
Y nefol hynaf Frawd;
Nid dyma'r nôd i'm daro,
Mae hwn mewn noddfa glyd,
Pan elo'r byd yn dân-llwyth,

Caiff ddiangc rhag y llid.

29 Wel dyma'r lloches ddiddos,
Sancteiddiaf Hâd y wraig,
Y sawl a gaffer yma,
Fe'u cuddier rhag y ddraig;
Caiff ddiangc maes o'r 'storom,
I wir dawelwch llawn,
Caiff torau disglair hyfryd
Heb weled byth brydnhawn.

30 Wel bellach filwyr Iesu,
O codwch arfau'n hy,
Mae lluoedd Nef o'n hochor,
Cawn gongcro uffern ddû;
Beth ydyw'r llew rhuadwy
O flaen ein Tywysog ni,
Mae amnaid i'r Gwaredwr,
Yn drech nag ef a'i lû.

31 Canhwyllau sydd yn diffodd,
Rhaid eraill rhai'n eu lle,
I gyfarwyddo gweiniaid,
Sy'n tynnu tu a thre;
O'r Aipht y daethant allan,
Mae'n hwyneb ar y wlad,
Lle cair y teulu yn gryno,
Sancteiddiaf dŷ eu Tad,

32 Ni chollir un o'r teulu,
Thrig ewin byth yn ol,
Er maint mae Pharao'n erlid,
Dwg Iesu hwy'n ei gôl;
Fel Eryr fe'u castella,
Caiff rhyngddynt hwy a'r llid,
Cair gwel'd ei waredigion,
Yn canu uwch y byd.

DIWEDD.